

Rhan E – Dilysu a chyfrif y pleidleisiau

Refferendwm ar aelodaeth y DU o'r
Undeb Ewropeaidd: canllawiau i
Swyddogion Cyfrif

Cyhoeddwyd Ionawr 2016 (diweddarwyd ddiwethaf Mai 2016)

Mae'r canllawiau hyn yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol; defnyddir 'dylai' ar gyfer eitemau sy'n arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Cyfieithiadau a fformatau eraill

Mae ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer yr etholiadau hyn hefyd ar gael yn Saesneg.

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Diweddariadau i'r ddogfen hon

Diweddarwyd	Disgrifiad o'r newid	Rhif paragraff
Mai 2016	Diweddarwyd i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth derfynol (gan gynnwys cadarnhau dyddiad y bleidlais) a chyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif a gadarnhawyd, ac i gynnwys cyfeiriadau deddfwriaethol	
Mai 2016	Testun ychwanegol ynghylch datgelu cyfansymiau ardaloedd pan gaiff eich prosesau dilysu a chyfrif eu rhannu yn ardaloedd hunangynwysedig	2.3

Cynnwys

1	Egwyddorion ar gyfer proses dilysu a chyfrif effeithiol	1
2	Paratoi ar gyfer y broses dilysu a chyfrif.....	2
	Cynllunio ar gyfer y broses dilysu a chyfrif	3
	Amseriad y broses dilysu a chyfrif	3
	Staffio a hyfforddiant.....	4
	Diwyg a chyfarpar yn y lleoliad dilysu a chyfrif	4
	Cyfathrebu yn ystod y broses dilysu a chyfrif	5
	Rheoli'r rhai sy'n bresennol	6
	Diogelu papurau pleidleisio	7
3	Bod yn bresennol yn ystod y broses dilysu a chyfrif	8
	Pwy all fod yn bresennol?.....	8
	Rheoli mynediad.....	9
	Asiantiaid cyfrif	9
	Arsylwyr achrededig	9
	Cynrychiolwyr y Comisiwn	10
	Y cyfryngau	10
4	Derbyn deunyddiau o'r gorsafoedd pleidleisio a blychau papurau pleidleisio post wedi'u selio	11
	Derbyn blychau papurau pleidleisio drwy'r post wedi'u selio	12
5	Dilysu	13
6	Y cyfrif	17
	Cyfrif y pleidleisiau.....	17
	Cymysgu	17
	Didoli a chyfrif.....	18
	Papurau pleidleisio amheus	18
	Cysoni	20
	Cyfansymiau lleol dros dro ac ailgyfrif	21
	Cyfleu'r cyfansymiau lleol	23
	Datgan y cyfansymiau lleol.....	23

1 Egwyddorion ar gyfer proses dilysu a chyfrif effeithiol

1.1 Dylech sicrhau y gall eich trefniadau dilysu a chyfrif gydymffurfio â'r egwyddorion allweddol ar gyfer prosesau dilysu a chyfrif effeithiol, fel a ganlyn:

- Mae pob proses yn dryloyw, gyda thrywydd archwilio clir a diamwys.
- Mae'r broses ddilysu yn arwain at ganlyniad cywir. Golyga hyn fod nifer y papurau pleidleisio ym mhob blwch naill ai'n cyfateb i nifer y papurau pleidleisio a ddosbarthwyd fel y'i nodwyd ar y chyfrif papurau pleidleisio neu, os nad felly y mae:
 - fod tarddiad yr amrywiad wedi cael ei nodi ac y gellir ei esbonio, a/neu
 - fod cynnwys y blwch wedi cael ei ailgyfrif o leiaf ddwywaith, nes y cyfrifir yr un nifer o bapurau pleidleisio ar ddau achlysur olynol
- Mae'r chyfrif yn arwain at ganlyniad cywir, lle mae cyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ateb i gwestiwn y refferendwm (h.y. o blaid 'Aros' ac o blaid 'Gadael') a'r pleidleisiau a wrthodwyd yn cyfateb i gyfanswm nifer y papurau pleidleisio a roddwyd ar y datganiad dilysu.
- Mae'r broses dilysu a chyfrif yn amserol.
- Cedwir cyfrinachedd y bleidlais bob amser.
- Diogelir papurau pleidleisio a deunyddiau ysgrifennu eraill bob amser.
- Caiff gwybodaeth yn ystod y broses dilysu a chyfrif ei chyfleu mewn ffordd glir ac amserol.

1.2 Yn ogystal ag ystyried sut i sicrhau y bydd eich prosesau yn eich galluogi i gydymffurfio â'r egwyddorion allweddol, bydd angen i chi ystyried ffactorau ymarferol perthnasol eraill a fydd yn effeithio ar y ffordd y caiff y broses dilysu a chyfrif ei threfnu a'i hamseriad, megis:

- daearyddiaeth yr ardal bleidleisio
- maint yr ardal bleidleisio
- maint eich lleoliad
- cost
- tryloywder i bawb sydd â'r hawl i fod yn bresennol

2 Paratoi ar gyfer y broses dilysu a chyfrif

2.1 Mae'r bennod hon yn ymwneud â'r ystyriaethau cyffredinol y bydd angen i chi eu hystyried wrth baratoi ar gyfer y broses dilysu a chyfrif yn eich ardal.



Cyfarwyddyd

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cyfarwyddo bod Swyddogion Cyfrif yn sicrhau bod y trefniadau dilysu a chyfrif wedi'u strwythuro fel y bydd modd rhannu'r broses dilysu a chyfrif yn nifer o 'ardaloedd' hunangynwysedig, llai o faint na'r ardal bleidleisio, gyda'r cyfansymiau ar gyfer pob un o'r 'ardaloedd' hyn wedi'u cyfuno'n un cyfanswm i'r ardal bleidleisio. Mae'r Prif Swyddog Cyfrif hefyd wedi cyfarwyddo na chaniateir dechrau cyfrif y pleidleisiau ar gyfer unrhyw 'ardal' hunangynwysedig nes bod y broses ddilysu ar gyfer yr 'ardal' honno wedi cael ei chwblhau.

2.2 Mae cynnal prosesau dilysu a chyfrif mewn ardaloedd hunangynwysedig yn ffordd effeithiol o reoli'r broses ac mae'n helpu i arwain at gyfansymiau lleol cywir gyda thrywydd archwilio clir, lle y gall unrhyw broblemau gael eu nodi a'u datrys yn haws. Nid yw cyfarwyddyd y Prif Swyddog Cyfrif yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddilyn unrhyw fodel penodol ac felly dylech ddefnyddio'ch profiad a'ch gwybodaeth leol i lywio'r ffordd y caiff eich prosesau dilysu a chyfrif eu datblygu.

2.3 Bydd angen i chi benderfynu ar faint a nifer yr 'ardaloedd' ar gyfer rhannu'ch proses dilysu a chyfrif (er enghraifft, fesul ward) a nodi'r ffordd orau o reoli'r broses ar sail eich profiad a'ch amgylchiadau eich hun. Gallech, er enghraifft, ddilysu a chyfrif ar sail ward ac yna gyfuno cyfansymiau pob ward, neu gallech isrannu'r ardal bleidleisio mewn ffordd arall ac yna adio cyfansymiau'r is-ardaloedd pleidleisio i wneud cyfanswm lleol ar gyfer yr ardal bleidleisio. Wrth bennu'r ardaloedd y byddwch yn eu defnyddio, dylech ystyried y bydd pleidiau ac ymgyrchwyr yn dangos diddordeb fwy na thebyg yng nghyfansymiau ardal etholiadol benodol. Pa ddull bynnag a ddefnyddiwch i bennu'r ardaloedd y byddwch yn rhannu eich prosesau dilysu a chyfrif iddynt, dylech fod yn barod i ryddhau eich cyfansymiau lleol fesul ardal.

2.4 Wrth ddatblygu'ch cynlluniau dylech ystyried sut y gallwch ddyrannu tua'r un nifer o bapurau pleidleisio i bob un o'r 'ardaloedd' llai fel y bydd pob un o is-rannau'r ardal bleidleisio yn gorffen tua'r un pryd. Bydd hyn yn helpu i osgoi unrhyw oedi cyn cael cyfansymiau ar gyfer yr ardal bleidleisio.

2.5 Dylech hefyd gydgysylltu â'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol er mwyn cytuno ar ffordd o'i hysbysu am hynt y broses dilysu a chyfrif, yn enwedig os bydd unrhyw broblemau'n codi.



Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r [pecyn cymorth dilysu a chyfrif](#), sy'n ymdrin â'r agweddau mwy ymarferol ar gynnal y broses dilysu a chyfrif, yn ogystal â'r penderfyniadau y bydd angen i chi eu gwneud ynglŷn â'r ffordd orau o reoli'r prosesau hyn.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn cydnabod nad oes dull gweithredu 'sy'n addas i bawb' y gellir ei ddefnyddio i gynnal y broses dilysu a chyfrif mewn refferendwm. Mae gan bob ardal ei hamgylchiadau ei hun a fydd yn dylanwadu ar y penderfyniadau y mae'n rhaid i chi eu gwneud wrth gynnal y prosesau dilysu a chyfrif. Nod y pecyn cymorth yw sicrhau cysondeb o ran canlyniadau, yn unol â'r egwyddorion a nodir ym Mhennod 1, tra'n cynnig hyblygrwydd er mwyn cydnabod amgylchiadau lleol gwahanol.

Cynllunio ar gyfer y broses dilysu a chyfrif

2.6 Fel y nodir yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#), er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y refferendwm, dylech baratoi cynllun prosiect sy'n cael ei drin fel 'dogfen fyw', gan ei adolygu'n rheolaidd, a'i ddefnyddio i fonitro cynnydd.

2.7 Dylech barhau i adolygu'ch cynllun ar gyfer adnoddau ar gyfer y broses dilysu a chyfrif a'i chynnal, gan ystyried cyd-destun penodol y refferendwm.

2.8 Dylech adolygu'ch tybiaethau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn realistig ac yn gadarn, gan gynnwys eich tybiaethau ynglŷn â'r nifer a fydd yn pleidleisio, cyflymder a galluogrwydd y staff cyfrif ac amseriad disgwylidiedig cwblhau gwahanol gamau'r cyfrif. Bydd adolygiad o'r fath yn eich helpu i asesu'n realistig p'un a fyddwch yn gallu cyflawni'r cynllun cyffredinol ar gyfer y cyfrif, a ph'un a fydd angen gweithredu cynlluniau wrth gefn a phryd. Ym mhob achos dylai'ch cynllun fod yn ddigon hyblyg i'ch galluogi i ymateb os bydd unrhyw rai o'ch tybiaethau yn newid, gan gynnwys pa gamau y byddwch yn eu cymryd o dan amgylchiadau o'r fath,

2.9 Er mwyn helpu i ennyn hyder yn eich cynllun ar gyfer y broses dilysu a chyfrif, dylech, o leiaf, rannu gwybodaeth am eich cynllun â'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol a'r asiantiaid refferendwm lleol.

Amseriad y broses dilysu a chyfrif



Cyfarwyddyd

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cyfarwyddo y bydd y broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau yn dechrau am 10pm yn y DU ac 11pm yn Gibraltar.

2.10 Bydd yn ofynnol i chi wneud trefniadau i ddechrau'r broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau am 10pm yn y DU ac 11pm yn Gibraltar. Er y bydd

materion ymarferol yn codi a fydd yn effeithio ar yr hyn y gellir ei wneud yn ystod y cyfnod yn union ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio, serch hynny dylai fod modd dechrau'r broses ddilysu o 10pm yn y DU, er enghraifft drwy ddechrau'r broses o ddilysu blychau pleidleisiau post o sesiynau agor cynharach.


2.11 Bydd disgwyliad ymhlith ymgyrchwyr a'r cyfryngau y caiff cyfansymiau lleol eu datgan mor fuan â phosibl ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio. Gan weithio gyda'r Prif Swyddog Cyfrif a'ch Swyddog Cyfrif Rhanbarthol bydd angen i chi gynllunio'n ofalus sut i reoli disgwyliadau ymgyrchwyr a'r cyfryngau.

2.12 Dylai'r cyfnod o amser ar gyfer cynnal y cyfrif gael ei bennu fel y gallwch ddarparu digon o adnoddau a chynnal proses gyfrif drefnus o fewn y cyfnod hwnnw, gan sicrhau cyfansymiau lleol cywir y gall pleidleiswyr, ymgyrchwyr ac asiantiaid ymddiried ynddynt.

2.13 Dylai'ch cynllun hefyd nodi adegau allweddol yn ystod y broses gyfrif pan fyddwch yn adolygu cynnydd yn erbyn yr amserlen ddisgwyliedig. Dylid defnyddio'r adolygiad o gynnydd hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i asiantiaid yn y cyfrif, yn ogystal â'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol.

Staffio a hyfforddiant

2.14 Er mwyn sicrhau y gall pleidleiswyr fod yn hyderus y caiff eu pleidleisiau eu cyfrif yn y ffordd a fwriadwyd ganddynt, bydd angen i chi sicrhau bod adnoddau priodol ar gael er mwyn sicrhau bod y broses dilysu a chyfrif yn amserol.



Mae rhagor o ganllawiau ar staffio ar gyfer y prosesau dilysu a chyfrif, a hyfforddi staff dilysu a chyfrif, ar gael yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

Diwyg a chyfarpar yn y lleoliad dilysu a chyfrif

2.15 Dylid hefyd baratoi cynlluniau o ddiwyg eich lleoliad dilysu a chyfrif. Caiff eich cynlluniau diwyg eu llywio gan y model dilysu a chyfrif y penderfynwch ei fabwysiadu, ystyriaeth o'r llifau gwaith y bwriadwch eu dilyn a faint o le a fydd ar gael i chi.

2.16 Er mwyn i'r rhai sy'n bresennol yn ystod y cyfrif allu bod yn hyderus bod y broses gyfrif wedi'i rheoli'n dda a bod y cyfansymiau lleol yn gywir, bydd angen i chi sicrhau bod eich holl brosesau'n dryloyw, gyda phopeth yn ystod y broses dilysu a chyfrif yn cael ei wneud yng ngolwg pawb sydd â hawl i fod yn bresennol.

2.17 Dylech sicrhau y caiff yr holl gyfarpar, gan gynnwys y cyfarpar y byddwch yn ei ddefnyddio i drosglwyddo gwybodaeth a chyfansymiau lleol i'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol, ei osod a'i brofi cyn y broses dilysu a chyfrif. Dylech hefyd sicrhau bod gennyh drefniadau wrth gefn ar waith rhag ofn y

bydd cyfarpar yn ddiffygiol neu y bydd toriad pŵer. Cynhelir rhagymarferion o'r broses o goladu'r cyfrif cyn y refferendwm, a chaiff gwybodaeth ynglŷn â phryd y bydd y rhain yn digwydd a'r hyn y byddant yn ei gynnwys ei darparu ar wahân.



Mae rhagor o ganllawiau ar ddewis lleoliadau dilysu a chyfrif ar gael yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#). I gael canllawiau ymarferol ynglŷn â sut i osod eich lleoliad dilysu a chyfrif a rhestr wirio o ddeunyddiau defnyddiol, gweler ein hadnodd dilysu a chyfrif '[Cynllunio ar gyfer dilysu a chyfrif effeithiol: pecyn cymorth i Swyddogion Cyfrif](#)'.

Cyfathrebu yn ystod y broses dilysu a chyfrif

2.18 Mae cyfathrebu da, mewn briffiadau lleol cyn y cyfrif ac yn y digwyddiad ei hun, yn galluogi'r rhai sy'n bresennol i graffu'n briodol ar yr holl brosesau a bydd yn helpu i ennyn hyder yn y ffordd y caiff y broses dilysu a chyfrif ei gweinyddu. Drwy ddarparu gwybodaeth am y prosesau sydd i'w dilyn gallwch hefyd helpu i leihau nifer yr ymholiadau a godir gan ymgyrchwyr neu asiantiaid refferendwm – yn enwedig o ystyried na fydd rhai sy'n bresennol yn gyfarwydd â phrosesau etholiadol na sut mae prosesau dilysu a chyfrif yn gweithio – a thrwy hynny leihau'r pwysau ar staff.

2.19 Dylech, er enghraifft, lunio a dosbarthu pecyn gwybodaeth i unrhyw un sy'n bresennol yn y cyfrif.

2.20 Drwy ddefnyddio system uchelseinydd i wneud cyhoeddiadau ar yr hyn sy'n digwydd, ble a phryd drwy gydol y broses dilysu a chyfrif byddwch yn helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymgyrchwyr ac asiantiaid refferendwm a thynnu eu sylw at unrhyw brosesau penodol y maent am arsylwi'n fanwl arnynt o bosibl (e.e. cyflwyno dyfarniad ar bapurau pleidleisio amheus).

2.21 Er mwyn sicrhau cyfathrebu tryloyw rhwng staff cyfrif ac eraill sy'n bresennol yn y cyfrif (gan gynnwys asiantiaid cyfrif) dylech nodi'n glir mewn cyfarwyddiadau i'r rhai a fydd yn bresennol yn y cyfrif y dylai unrhyw gwestiynau gael eu codi drwy oruchwylwyr cyfrif yn hytrach na chynorthwylwyr cyfrif.

2.22 Hefyd, os bydd asiantiaid neu arsylwyr yn anfodlon o gwbl ar y modd y caiff y prosesau eu cynnal, dylai fod cyfle bob amser iddynt wneud sylwadau'n uniongyrchol i chi ar y cyfle cyntaf posibl fel y gallwch ystyried unrhyw bryderon, rhoi esboniadau a sicrwydd, a chymryd unrhyw gamau unioni os bydd angen.

2.23 Dylech hefyd ystyried y canlynol wrth benderfynu ar y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i unrhyw un a fydd yn bresennol yn ystod y broses dilysu a chyfrif am y prosesau sydd i'w dilyn, a sut y byddwch yn ei rhoi.

- Gosod posteri gwybodaeth a hysbysfyrdau drwy bob rhan o'r lleoliad dilysu a chyfrif. Dylai'r rhain fod yn ddigon mawr i fod yn amlwg, a dylent ddangos yr aelodau allweddol o staff a rhoi trosolwg o'r gweithdrefnau

i'w dilyn er mwyn helpu'r rhai sy'n bresennol i ddeall beth sy'n digwydd a ble. Efallai y byddwch am roi lluniau ohonoch chi a'ch staff allweddol er mwyn helpu'r rhai sy'n bresennol i'ch adnabod yn y cyfrif. Gallech hefyd ddarparu'r wybodaeth hon cyn y cyfrif, er enghraifft fel rhan o becyn gwybodaeth.

- Darparu cynllun diwyg o'r lleoliad, sy'n nodi'r prif ardaloedd o ddiddordeb i asiantiaid cyfrif ac arsylwyr.
- Penodi aelod o staff i ymateb i ymholiadau a gweithredu fel swyddog cyswllt rhwng ymgyrchwyr, asiantiaid ac arsylwyr a staff allweddol.
- Dosbarthu taflen sy'n rhestru rhifau pob blwch pleidleisio ac enwau'r gorsafoedd pleidleisio y maent yn ymwneud â hwy.
- Rhoi copi o dempled y gwaith papur dilysu a chyfrif a gaiff ei ddefnyddio i gyfleu canlyniad y broses dilysu a chyfrif – i'w ddilyn gan y datganiadau dilysu gwirioneddol a datganiadau am gyfansymiau lleol.



I gael canllawiau ymarferol ar rannu gwybodaeth yn y lleoliad dilysu a chyfrif, gweler ein hadnodd dilysu a chyfrif '[Cynllunio ar gyfer dilysu a chyfrif effeithiol: pecyn cymorth i Swyddogion Cyfrif](#)'.

Rheoli'r rhai sy'n bresennol

2.24 Dylai'ch cynlluniau gynnwys ffyrdd o reoli disgwyliadau'r rhai sy'n bresennol yn ystod y broses dilysu a chyfrif, fel y bydd pawb yn gwybod beth i'w ddisgwyl a beth yw eu rôl. Dylent hefyd gwmpasu sut y byddwch yn cynnal cyfrinachedd y bleidlais drwy gydol y broses dilysu a chyfrif.

2.25 Dylech sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn y cyfrif, gan gynnwys asiantiaid refferendwm, asiantiaid cyfrif, arsylwyr a'r cyfryngau, yn cael eu briffio ar y broses o gynnal y cyfrif a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt bob amser a'u bod yn eu deall. Dylech nodi'n glir mewn briffiadau ysgrifenedig ac wyneb yn wyneb i'r rhai a fydd yn bresennol na fyddwch yn caniatáu iddynt fod yn lleoliad y cyfrif os bydd eu hymddygiad yn amharu ar y broses o gynnal y cyfrif yn effeithiol. Dylai hyn helpu'r staff cyfrif i ddilysu a chyfrif pleidleisiau heb ymyrraeth gan asiantiaid cyfrif nac arsylwyr eraill.

2.26 Dylech hefyd benderfynu ar bolisi ynglŷn â defnyddio ffonau symudol a ffotograffiaeth / ffilmio yn y lleoliad dilysu a chyfrif a rhoi'r wybodaeth hon ymlaen llaw i'r rhai sydd â'r hawl i fod yn bresennol.

2.27 Dylid dosbarthu tocynnau neu gardiau mynediad i bawb sydd â'r hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif, ac eithrio arsylwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn a fydd yn gwisgo bathodynau achredu pinc neu arian. Dylech ystyried dosbarthu tocynnau neu gardiau mynediad mewn lliwiau gwahanol er mwyn nodi'r categorïau gwahanol o unigolion a fydd yn bresennol.

2.28 Dylech gydgyssylltu â'r heddlu i gadarnhau y bydd eu cynlluniau ar gyfer rheoli'r manau cyhoeddus y tu allan i leoliad y cyfrif yn ei gwneud yn bosibl i bobl sydd â'r hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif ddod i mewn a gadael y lleoliad yn ddirwystr.



Gweler **Pennod 3** i gael rhagor o ganllawiau ar bwy sydd â hawl i fod yn bresennol wrth ddilysu a chyfrif.

Diogelu papurau pleidleisio

2.29 Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau diogelwch y papurau pleidleisio a'r deunyddiau ysgrifennu perthnasol o'r adeg y bydd gorsafoddd pleidleisio yn cau hyd at ddatgan y cyfansymiau lleol. Dylai hyn gynnwys nodi pa brosesau a gâi eu dilyn pe bai toriad annisgwyl yn y gweithrediadau.

2.30 Dylech sicrhau diogelwch y papurau pleidleisio bob amser. Os bydd angen i chi storio papurau pleidleisio, rhaid i chi eu storio mewn blychau pleidleisio wedi'u selio mewn man diogel, gan ganiatáu i asiantiaid atodi eu seliau i'r blychau pleidleisio.¹ Dylech bob amser agor y blychau pleidleisio wedi'u selio yng ngolwg unrhyw asiantiaid sy'n bresennol, fel y gallant fodloni eu hunain nad oes neb wedi ymyrryd â'r papurau pleidleisio na'r blychau pleidleisio.

2.31 Dylech gydgyssylltu â'ch Pwynt Cyswllt Unigol yn yr heddlu lleol wrth benderfynu ar y dull mwyaf priodol o sicrhau storio diogel.

2.32 Dylech hefyd friffio ymgrychwr ac asiantiaid am eich trefniadau, fel y gallant fod yn hyderus ynglŷn ag uniondeb y cyfrif.



I gael canllawiau ymarferol ar sicrhau diogelwch blychau pleidleisio a phapurau pleidleisio, gweler ein hadnodd dilysu a chyfrif '[Cynllunio ar gyfer dilysu a chyfrif effeithiol: pecyn cymorth i Swyddogion Cyfrif](#)'.

3 Bod yn bresennol yn ystod y broses dilysu a chyfrif

Pwy all fod yn bresennol?

3.1 Yn ôl y gyfraith, mae gan y bobl ganlynol yr hawl i fod yn bresennol yn ystod y broses dilysu a chyfrif²:

- chi a'ch staff
- y Prif Swyddog Cyfrif
- y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol
- asiantiaid refferendwm
- asiantiaid cyfrif
- Cynrychiolwyr y Comisiwn
- arsylwyr achrededig
- unrhyw berson arall sy'n cael caniatâd gennych fel Swyddog Cyfrif i fod yn bresennol (gweler paragraff 3.6 isod)

3.2 Rhaid i chi hysbysu asiantiaid cyfrif penodedig yn ysgrifenedig o'r amser y byddwch yn dechrau dilysu a chyfrif pleidleisiau a'r lleoliad³.

3.3 Rhaid i chi ddarparu cyfleusterau rhesymol ar gyfer asiantiaid cyfrif er mwyn iddynt oruchwylio'r broses o ddilysu a chyfrif y pleidleisiau⁴. Dylech hefyd sicrhau y gall unrhyw un arall sydd â'r hawl i fod yn bresennol weld yr holl weithrediadau'n glir, a hefyd sicrhau na fyddant yn gallu ymyrryd â gwaith eich staff.

3.4 Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau na fydd neb sy'n bresennol yn ymyrryd â chyfrinachedd y bleidlais nac yn ei pheryglu. Rhaid i chi wneud y cyfryw drefniadau ag y gwelwch yn briodol i sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn cael copi o'r [gofynion perthnasol ynglŷn â chyfrinachedd](#)⁵.

3.5 Dylech hysbysu'r rhai a fydd yn bresennol yn y broses dilysu a chyfrif o'r amser cynharaf y cânt ddod i mewn i'r lleoliad. Ar ôl yr amser hwnnw, dylai'r rhai sydd â'r hawl i fod yn bresennol gael mynediad pryd bynnag y byddant yn cyrraedd a dylai gweithdrefn fod ar waith fel na fydd unrhyw un sy'n bresennol ac sy'n dymuno gadael a dychwelyd yn ddiweddarach yn cael ei atal rhag gwneud hynny.

3.6 Gallwch, yn ôl eich disgrisiwn, ganiatáu i bobl eraill fod yn bresennol os ydych yn fodlon na fydd hynny'n amharu ar y broses o ddilysu a chyfrif y pleidleisiau'n effeithlon ac, yn achos y cyfrif, eich bod wedi ymgynghori â'r asiantiaid refferendwm ymlaen llaw neu wedi ystyried ei bod yn anymarferol gwneud hynny⁶.

Rheoli mynediad

3.7 Dylech roi rhestrau o'r bobl hynny sydd â'r hawl i fod yn bresennol yn ystod y broses dilysu a chyfrif i'r rhai sydd ar ddyletswydd wrth y fynedfa, a chyfarwyddo'r staff diogelwch i wirio tocynnau neu gardiau mynediad unrhyw un sy'n ceisio dod i mewn.


3.8 Fodd bynnag, dylid briffio'r staff diogelwch hefyd nad oes angen i gynrychiolwyr y Comisiwn nac arsylwyr achrededig roi gwybod ymlaen llaw lle y bwriadant arsylwi ac felly na fyddant yn ymddangos ar eu rhestr o bosibl ond eto i gyd fod ganddynt hawl i ddod i mewn i'r lleoliad dilysu a chyfrif ar ôl dangos eu bathodyn adnabod fel arsylwr neu gynrychiolydd y Comisiwn.

3.9 Am resymau iechyd a diogelwch, dylech gofnodi enwau pawb sy'n bresennol yn y broses dilysu a chyfrif.



Mae rhagor o ganllawiau ar arsylwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn, gan gynnwys canllaw cyflym ar fathau o fathodynau arsylwyr, ar gael yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

Asiantiaid cyfrif



Ceir rhagor o ganllawiau ar benodi asiantiaid cyfrif yn [Rhan C – Gweinyddu'r bleidlais](#).

3.10 Rhaid i chi ddarparu cyfleusterau rhesymol ar gyfer asiantiaid cyfrif er mwyn iddynt oruchwylio'r broses o ddilysu a chyfrif y pleidleisiau, a rhoi gwybodaeth berthnasol iddynt. Yn benodol, pan gaiff y papurau pleidleisio eu didoli yn unol â phob ateb i gwestiwn y refferendwm, mae gan yr asiantiaid cyfrif yr hawl i fodloni eu hunain bod y papurau pleidleisio wedi'u didoli'n gywir⁷.

Arsylwyr achrededig

3.11 Mae arsylwi etholiadol yn rhan ddilys a gwerthfawr o'r broses etholiadol a dylid gofalu na chaiff arsylwyr eu rhwystro na'u hatal rhag arsylwi. Er y caniateir i chi gyfyngu ar nifer yr arsylwyr a all fod yn bresennol ar unrhyw adeg benodol yn ystod y broses dilysu a chyfrif, dylech fod yn ofalus wrth wneud hynny. Nid oes gennych hawl i wahardd pob arsylwr rhag bod yn bresennol yn y broses dilysu a chyfrif, dim ond cyfyngu ar nifer yr arsylwyr sy'n bresennol ar unrhyw adeg benodol, a rhaid i chi arfer y disgrisiwn hwn yn rhesymol.⁸

3.12 Rhaid i chi ystyried [Cod Ymarfer y Comisiwn i arsylwyr](#) wrth reoli presenoldeb arsylwyr⁹.



Mae rhagor o ganllawiau ar arsylwyr achrededig ar gael yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

Cynrychiolwyr y Comisiwn

3.13 Mae gan gynrychiolwyr y Comisiwn yr hawl i fod yn bresennol yn y broses dilysu a chyfrif ac arsylwi ar eich arferion gwaith. Gallant ofyn cwestiynau i'ch staff ac asiantiaid, ond ni wnânt hynny os byddai'n amharu neu'n aflonyddu ar y gweithrediadau. Ni chaniateir i chi gyfyngu ar nifer y cynrychiolwyr o'r Comisiwn yn y broses dilysu a chyfrif¹⁰.

Y cyfryngau

3.14 Dylech gynnwys lle a chyfle i'r cyfryngau gyflwyno adroddiadau ar y cyfansymiau lleol. Mae gennych ddisgresiwn i benderfynu pa gynrychiolwyr o'r cyfryngau a gaiff ganiatâd i fod yn bresennol. Fel gyda phawb arall sy'n bresennol, rhaid i chi sicrhau na fydd cynrychiolwyr y cyfryngau yn ymyrryd â'r broses nac yn peryglu cyfrinachedd y bleidlais.

3.15 Dylech sicrhau bod eich tîm cysylltiadau cyhoeddus yn bresennol i ddelio ag ymholiadau gan y cyfryngau. Dylech sicrhau eu bod yn gwybod pwy i'w holi os gofynnir unrhyw gwestiynau technegol iddynt ynglŷn â gweinyddu'r refferendwm.

3.16 Yn ogystal â gwneud trefniadau ymarferol ar gyfer eu presenoldeb, dylai unrhyw gyswllt cynnar â'r cyfryngau hefyd gynnwys esboniad o'r prosesau i'w dilyn ac amseroedd disgwyliedig gorffen y cyfrif a datgan cyfansymiau lleol.

3.17 Os yw cynrychiolwyr o'r cyfryngau wedi cael eu hachredu'n arsylwyr gan y Comisiwn a'u bod yn bresennol yn rhinwedd y rôl honno, mae ganddynt yr un hawl iau a rhwymedigaethau ag unrhyw arsylwr achrededig arall. Fel pob arsylwr arall, mae'n ofynnol iddynt ystyried [Cod ymarfer y Comisiwn i arsylwyr](#) a rhaid iddynt barchu unrhyw benderfyniad gennych ynglŷn â'r defnydd o ffonau symudol, camerâu ac offer recordio eraill.¹¹



I gael canllawiau ymarferol ar gysylltu â'r cyfryngau, gweler ein hadnodd dilysu a chyfrif '[Cynllunio ar gyfer prosesau dilysu a chyfrif effeithiol: pecyn cymorth i Swyddogion Cyfrif](#)'.

4 Derbyn deunyddiau o'r gorsafoedd pleidleisio a blychau papurau pleidleisio post wedi'u selio

4.1 Wrth baratoi, dylech lunio templedi ar gyfer pob dogfen a gaiff ei chwblhau yn ystod y broses ddilysu a chyfrif a rhoi trywydd archwilio clir. Ceir rhagor o ganllawiau ar sicrhau trywydd archwilio clir o'r prosesau cyfrif yn y rhan hon, ym **Mhennod 5 - Dilysu** ac ym **Mhennod - 6.Y cyfrif**

4.2 Mae derbyn blychau pleidleisio a deunyddiau oddi wrth orsafoedd pleidleisio mewn ffordd gywir a threfnus yn elfen allweddol o broses ddilysu gywir. Dylai'ch tîm o staff sy'n derbyn deunyddiau oddi wrth orsafoedd pleidleisio ddefnyddio rhestr wirio er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrif am yr holl flychau pleidleisio a phapurau pleidleisio yn gywir, yn ogystal ag unrhyw becynnau sy'n cynnwys pleidleisiau post a roddwyd i staff gorsafoedd pleidleisio.

4.3 Lle y bydd yn ofynnol i Swyddogion Llywyddu gludo'r blychau pleidleisio i'r lleoliad dilysu a chyfrif, dylid egluro i'r staff sy'n derbyn y blychau pleidleisio na ddylid caniatáu i unrhyw Swyddogion Llywyddu adael nes bod eu blwch pleidleisio a'r holl ddogfennau a phecynnau wedi cael eu derbyn a'u gwirio gan yr aelod dynodedig o staff a, lle bynnag y bo modd, eu bod wedi bwrw golwg yn fras dros y cyfrif papurau pleidleisio. Dylid cyfarwyddo'r staff sy'n derbyn blychau pleidleisio i sicrhau eu bod yn cael y cyfrif papurau pleidleisio ar gyfer pob blwch pleidleisio.

4.4 Ar ôl eu derbyn, gellir trosglwyddo'r cyfrifon papurau pleidleisio i'r staff sy'n ymwneud â rheoli'r broses o ddilysu blychau pleidleisio a gall yr holl ddeunyddiau a dderbyniwyd o'r gorsafoedd pleidleisio gael eu rhyddhau gan y staff sy'n eu derbyn a'u rhoi i'r timau perthnasol, sy'n ei gwneud yn bosibl i'r broses o ddilysu'r papurau pleidleisio nas defnyddiwyd ac agor pleidleisiau post ddechrau.

4.5 Dylai'r sachau sy'n cynnwys y dogfennau y mae angen eu storio, megis rhestrau rhifau cyfatebol wedi'u selio, gael eu gwahanu oddi wrth y rhai sy'n cynnwys eitemau a gaiff eu hailddefnyddio, megis deunyddiau ysgrifennu cyffredinol. Dylai'r pecynnau a'r parseli o'r gorsafoedd pleidleisio gael eu trefnu mewn ffordd sy'n ei gwneud yn hawdd dod o hyd i unrhyw becyn.

4.6 Rhaid i bob pecyn o bapurau pleidleisio a ddifethwyd a phapurau pleidleisio nas defnyddiwyd gael ei agor a'i gyfrif ac yna'i selio, gyda'r niferoedd a gyfrifwyd yn cael eu rhoi i'r aelodau hynny o staff sy'n gyfrifol am y broses ddilysu¹². Cewch eich gwahardd rhag agor y pecynnau wedi'u selio o

bapurau pleidleisio a gyflwynwyd, ond rhaid i chi agor y pecyn sy'n cynnwys y rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd er mwyn gwirio'r rhestr yn erbyn y cyfrif papurau pleidleisio ac yna'i ailseilio¹³.

4.7 Ni chaniateir i chi agor y pecynnau wedi'u selio sy'n cynnwys y rhestrau rhifau cyfatebol a'r tystysgrifau cyflogaeth, y copïau wedi'u marcio o'r gofrestr a'r rhestrau o ddirprwyon¹⁴. Dylech sicrhau bod y deunyddiau y mae'n rhaid i chi eu cadw dan sêl wedi'u gosod mewn man penodol a diogel drwy gydol y broses dilysu a chyfrif.

Derbyn blychau papurau pleidleisio drwy'r post wedi'u selio

4.8 Bydd papurau pleidleisio post a gafodd eu derbyn a'u hagor yn gynharach wedi cael eu prosesu a dylid dod â hwy i'r lleoliad dilysu a chyfrif mewn blychau pleidleisio wedi'u selio, ynghyd â chyfrif papurau pleidleisio ar gyfer pob blwch pleidleisiau post. Dylai'r staff sy'n derbyn y blychau pleidleisiau post ddefnyddio rhestr wirio er mwyn sicrhau y cyfrifir am bob blwch pleidleisio post a phob cyfrif papurau pleidleisio post yn gywir.

4.9 Rhaid i bob pecyn a phob blwch pleidleisio sy'n cynnwys papurau pleidleisio post gael eu dilysu hefyd¹⁵. Gan y bydd y rhain yn aml ymhlith y blychau cyntaf i'w dilysu, maent yn cynnig cyfle i ennyn hyder yn y broses ac yn y cyfrif yn gyffredinol.

5 Dilysu



Cyfarwyddyd

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cyfarwyddo bod Swyddogion Cyfrif yn sicrhau bod y trefniadau dilysu a chyfrif wedi'u strwythuro fel y bydd modd rhannu'r broses dilysu a chyfrif yn nifer o 'ardaloedd' hunangynwysedig, llai o faint na'r ardal pleidleisio, gyda'r cyfansymiau ar gyfer pob un o'r 'ardaloedd' hyn wedi'u cyfuno'n un cyfanswm i'r ardal pleidleisio. Mae'r Prif Swyddog Cyfrif hefyd wedi cyfarwyddo na chaniateir dechrau cyfrif y pleidleisiau ar gyfer unrhyw 'ardal' hunangynwysedig nes bod y broses ddilysu ar gyfer yr 'ardal' honno wedi cael ei chwblhau.

5.1 Mae sicrhau cywirdeb ar y cam dilysu yn hollbwysig o ran sicrhau cyfrif amserol a chywir. Os bydd y ffigurau dilysu, er enghraifft, yn anghywir, bydd amrywiad o gymharu â chyfansymiau'r cyfrif ar ddiwedd y cyfrif y bydd angen ei ddatrys ac a fydd felly'n achosi'r risg y caiff y broses gyffredinol ei harafu'n sylweddol

5.2 Mae cynnal prosesau dilysu a chyfrif mewn 'ardaloedd' hunangynwysedig yn ffordd effeithiol o reoli'r broses ac mae'n helpu i arwain at gyfansymiau lleol cywir gyda thrywydd archwilio clir, lle y gall unrhyw broblemau gael eu nodi a'u datrys yn haws.



Gweler **Pennod 2** i gael manylion am y prif ystyriaethau a ddylai lywio'ch penderfyniadau ynglŷn â sut i reoli'r broses dilysu a chyfrif.

5.3 Mae i ddilysu dau brif ddiben - sicrhau a dangos bod yr holl bapurau pleidleisio a ddsbarthwyd mewn gorsafoedd pleidleisio a'r holl bapurau pleidleisio post a ddychwelwyd wedi cael eu cludo i'r cyfrif, a rhoi'r ffigur y mae'n rhaid i ganlyniad y cyfrif fod yn gyson ag ef. Dylech gofio am y ddau ddiben wrth gynnal y broses ddilysu.

5.4 Dylai hyfforddiant i Swyddogion Llywyddu ar gwblhau cyfrifon papurau pleidleisio, ynghyd â chyfrifon papurau pleidleisio sydd wedi'u paratoi mewn fformat clir a hawdd ei gwblhau, helpu i roi sylfaen gadarn dros y broses ddilysu



Ceir gwybodaeth am hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

5.5 Mae dilysu'r papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd, nas defnyddiwyd ac a ddifethwyd yn ofyniad cyfreithiol, ac mae'n ganolog i'r broses o ddatgan cyfansymiau lleol cywir.

5.6 Rhaid i chi ddilysu pob cyfrif papurau pleidleisio a pharatoi datganiad am ganlyniad y broses ddilysu¹⁶. Mae hwn yn gofnod o nifer y papurau pleidleisio a ddisgwyliwyd a nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd, ynghyd ag esboniad o

unrhyw amrywiadau. Caiff unrhyw asiant wneud copi ohono¹⁷, a dylech sicrhau bod copïau ohono ar gael i'r asiantiaid sy'n bresennol unwaith bod y broses ddilysu wedi'i chwblhau. Mae'r datganiad dilysu yn adnodd cyfathrebu allweddol a fydd yn helpu i sicrhau bod asiantiaid yn hyderus bod y prosesau dilysu a chyfrif yn dryloyw ac y byddant yn arwain at gyfansymiau lleol cywir.

5.7 Fel gyda phob agwedd ar y broses dilysu a chyfrif, mae tryloywder yn allweddol a dylai'r broses a ddilynwyd fod yn glir i bawb sy'n bresennol.

5.8 Pan gafodd mwy nag un blwch pleidleisio ei ddefnyddio mewn gorsaf dylent gael eu dilysu ar yr un pryd ar fyrddau cyfagos neu un ar ôl y llall ar yr un bwrdd.

5.9 Mae camau allweddol y broses ddilysu fel a ganlyn:

- a. Rhaid i staff agor y pecynnau o bapurau pleidleisio nas defnyddiwyd a chadarnhau nifer y papurau pleidleisio nas dosbarthwyd drwy nodi nifer y llyfrau a nifer y papurau pleidleisio sy'n weddill mewn unrhyw lyfr rhannol o bapurau pleidleisio y tu mewn i'r pecyn. Rhaid i'r pecynnau o bapurau pleidleisio a ddifethwyd gael eu hagor hefyd a'u cyfrif. Rhaid i'r papurau pleidleisio nas defnyddiwyd a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd gael eu hailselio ar ôl iddynt gael eu cyfrif¹⁸.
- b. Rhaid i'r staff agor y blychau pleidleisio ym mhresenoldeb unrhyw asiantiaid cyfrif ac arsylwyr sy'n bresennol¹⁹. Pan fydd asiant wedi atodi sêl i flwch ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio, dylid cymryd gofal mawr i ddangos i unrhyw asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol bod y sêl hon heb ei thorri cyn iddi gael ei thorri. Dylid arllwys y papurau pleidleisio yn ofalus ar y bwrdd, gan sicrhau nad oes yr un wedi syrthio i'r llawr a bod y blwch yn wag.
- c. Rhaid i chi sicrhau bod y papurau pleidleisio yn wynebu i fyny drwy gydol y broses dilysu a chyfrif²⁰.
- d. Dylech ddangos y blwch gwag i'r asiantiaid a'r arsylwyr fel y gallant fod yn fodlon bod y blwch yn wirioneddol wag.
- e. Yna dylai'r cynorthwywyr cyfrif agor y papurau pleidleisio a'u cyfrif yn fwndeli. Mae cywirdeb ar y cam hwn yn hollbwysig, felly dylai'r bwndeli gael eu trosglwyddo i gynorthwydd arall i'w hailgyfrif. Dylai unrhyw bapurau pleidleisio a gyflwynwyd a roddwyd yn y blwch pleidleisio ar gam gael eu tynnu oddi yno a'u rhoi i'r goruchwyliwr.
- f. Rhaid i'r cyfansymiau a roddwyd ar y cyfrif papurau pleidleisio gael eu cymharu â nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd ac y cofnodwyd eu bod yn bresennol y tu mewn i'r blwch pleidleisio. Rhaid i chi gymharu'r papurau pleidleisio nas defnyddiwyd a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd, yn ogystal â'r rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd, â'r ffigurau ar bob cyfrif papurau pleidleisio²¹. Dylai cyfanswm nifer y papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio fod yn gyson â'r cyfanswm

ar y cyfrif papurau pleidleisio, ac yn gyson â chyfanswm nifer y papurau pleidleisio nas defnyddiwyd.

5.10 Os na fydd cyfrif papurau pleidleisio yn gyson â nifer y papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio, dylech ddilyn y weithdrefn ganlynol a dogfennu'r canlyniad ar y datganiad dilysu.

- a. Gwiriwch y symiau adio ar y cyfrif papurau pleidleisio yn llawn ynghyd â nifer y papurau pleidleisio nas defnyddiwyd. Edrychwch ar y pecynnau eraill o ddeunyddiau a ddychwelwyd ac unrhyw gofnodyfr gan yr orsaf bleidleisio er mwyn ceisio nodi unrhyw reswm dros bapurau pleidleisio coll neu ychwanegol. Sicrhewch nad yw'r papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd wedi cael eu hychwanegu at nifer y pleidleisiau a fwriwyd yn yr orsaf bleidleisio. Dylech ystyried cysylltu â'r Swyddog Llywyddu a gofyn iddo/iddi geisio esbonio unrhyw anghysonderau.
- b. Edrychwch ar y cofnod o flychau pleidleisio a ddsbarthwyd i weld a gafodd mwy nag un blwch pleidleisio ei ddsbarthu i'r orsaf bleidleisio a sicrhewch fod yr holl flychau a ddyrannwyd i'r orsaf yn cael eu hagor ac y cyfrifir amdanynt.
- c. Gwiriwch y blychau pleidleisio ar gyfer yr holl orsafoedd pleidleisio yn yr un man pleidleisio. Efallai y bydd y broses o ddilysu'r cyfrifon papurau pleidleisio ar gyfer gorsafoedd pleidleisio eraill yn y lleoliad hwnnw yn dangos gwall cydadferol am fod etholwyr wedi gosod eu papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio 'anghywir'. Os bydd y gwallau cydadferol yn gwrthbwysu ei gilydd, gellir tybio bod y broses ddilysu yn llwyddiannus.
- d. Os daw'r blwch pleidleisio o un orsaf bleidleisio, neu os nad oes unrhyw wall cydadferol yn ffigurau'r orsaf bleidleisio arall/gorsafoedd pleidleisio eraill yn y man pleidleisio hwnnw, ail-gyfrifwch y papurau pleidleisio yn y blwch o leiaf ddwywaith eto, neu hyd nes bod yr un ffigur yn cael ei gyfrif ar ddau achlysur yn olynol.
- e. Os bydd unrhyw anghysondeb o hyd, ar ôl dilyn y gweithdrefnau a amlinellir uchod, defnyddiwch nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd ac a ail-gyfrifwyd gan y staff cyfrif fel y ffigur a ddilyswyd a gwnewch nodyn priodol ar y cyfrif papurau pleidleisio.
- f. Ychwanegwch y chyfanswm a ddilyswyd a'r amrywiad rhwng hwnnw a'r nifer ar y cyfrif papurau pleidleisio at y datganiad am ganlyniad y broses ddilysu, gan esbonio pam bod yr amrywiad hwnnw wedi digwydd os oes modd, a thrafodwch hyn ag unrhyw asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol.

5.11 Dim ond ar ôl i'r holl bapurau pleidleisio post, gan gynnwys y rhai a dderbyniwyd mewn gorsafoedd pleidleisio, gael eu hagor a'u prosesu, a'u dilysu, y gellir cwblhau'r broses ddilysu.²²

5.12 Rhaid i chi sicrhau bod y datganiad dilysu sy'n cynnwys canlyniad y broses o ddilysu pob blwch pleidleisio wedi'i gwblhau. Ym mhob achos, rhaid i'r datganiad gynnwys chyfanswm nifer y papurau pleidleisio post a chyfanswm

nifer y papurau pleidleisio a ddilyswyd ar gyfer y bleidlais²³. Dylech lofnodi'r datganiad. Caiff unrhyw asiant wneud copi o'r datganiad am ganlyniad y broses ddilysu ac, er mwyn ennyn hyder yn y ffigurau, dylech sicrhau bod copïau ar gael i'r asiantiaid sy'n bresennol ar ôl i'r broses ddilysu gael ei chwblhau.

5.13 Rhaid i chi hysbysu'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol am gynnwys y datganiad dilysu ar ôl iddo gael ei lunio²⁴. Caiff rhagor o ganllawiau ar y prosesau a'r systemau ar gyfer cyflwyno ffigurau dilysu eu rhoi ar wahân gan y Prif Swyddog Cyfrif a'ch Swyddog Cyfrif Rhanbarthol.

5.14 Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau diogelwch y papurau pleidleisio a'r deunyddiau ysgrifennu perthnasol yn ystod unrhyw doriad nas rhagwelwyd yn ystod y broses dilysu a chyfrif. Ceir rhagor o ganllawiau ar sicrhau diogelwch blychau pleidleisio ym mharagraff **2.29** uchod ac yn ein hadnodd dilysu a chyfrif '[Cynllunio ar gyfer dilysu a chyfrif effeithiol: pecyn cymorth i Swyddogion Cyfrif](#)'.

6 Y cyfrif

Cyfrif y pleidleisiau



Cyfarwyddyd

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cyfarwyddo bod Swyddogion Cyfrif yn sicrhau bod y trefniadau dilysu a chyfrif wedi'u strwythuro fel y bydd modd rhannu'r broses dilysu a chyfrif yn nifer o 'ardaloedd' hunangynwysedig, llai o faint na'r ardal pleidleisio, gyda'r cyfansymiau ar gyfer pob un o'r 'ardaloedd' hyn wedi'u cyfuno'n un cyfanswm i'r ardal pleidleisio. Mae'r Prif Swyddog Cyfrif hefyd wedi cyfarwyddo na chaniateir dechrau cyfrif y pleidleisiau ar gyfer unrhyw 'ardal' hunangynwysedig nes bod y broses ddilysu ar gyfer yr 'ardal' honno wedi cael ei chwblhau.

6.1 Mae cynnal prosesau dilysu a chyfrif mewn 'ardaloedd' hunangynwysedig yn ffordd effeithiol o reoli'r broses ac mae'n helpu i arwain at gyfansymiau lleol cywir gyda thrywydd archwilio clir, lle y gall unrhyw broblemau gael eu nodi a'u datrys yn haws.

6.2 Er bod y Prif Swyddog Cyfrif wedi cyfarwyddo na ddylid dechrau cyfrif y pleidleisiau ym mhob un o'r 'ardaloedd' hunangynwysedig nes bod y broses ddilysu wedi'i chwblhau, nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i Swyddogion Cyfrif aros i'r broses ddilysu fod yn gyflawn ym mhob 'ardal' cyn dechrau'r cyfrif. Caiff Swyddogion Cyfrif ddechrau cyfrif y pleidleisiau yn yr 'ardaloedd' hynny lle mae'r broses ddilysu eisoes wedi'i chwblhau.



Gweler **Pennod 2** i gael manylion am y prif ystyriaethau a ddylai lywio'ch penderfyniadau ynglŷn â sut i reoli'r broses dilysu a chyfrif.

6.3 Dylai pob proses gyfrif fod yn dryloyw, a fydd yn helpu i ennyn hyder yn y cyfrif.

6.4 Dylech roi cyfleoedd priodol i'r rhai sydd â'r hawl i arsylwi a gwrthwynebu dyfarniadau ar bapurau pleidleisio amheus. Dylai hyn gynnwys sicrhau y caiff bwndeli o bapurau pleidleisio wedi'u cyfrif eu storio yng ngolwg asiantiaid cyfrif mewn ffordd sy'n eu galluogi i fonitro cynnydd drwy gydol y cyfrif.

Cymysgu

6.5 Rhaid i chi gymysgu'r papurau pleidleisio er mwyn sicrhau bod papurau pleidleisio o bob blwch pleidleisio wedi'u cymysgu â phapurau pleidleisio o un blwch pleidleisio arall o leiaf, a chymysgu'r papurau pleidleisio post â phapurau pleidleisio o un blwch pleidleisio arall o leiaf cyn didoli a chyfrif y pleidleisiau²⁵.

Didoli a chyfrif

6.6 Rhaid i bapurau pleidleisio wynebu i fyny drwy gydol y broses gyfrif er mwyn atal unrhyw un rhag gweld y rhif a'r marc adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio²⁶. Dylai'r papurau pleidleisio fod yn weladwy drwy'r amser i unrhyw asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol.

6.7 Dylai cynorthwyywyr cyfrif ddiidoli'r papurau pleidleisio yn bleidleisiau ar gyfer pob ateb i gwestiwn y refferendwm (h.y. 'Aros' a 'Gadael'). Dylai unrhyw bapurau pleidleisio amheus gael eu rhoi o'r neilltu er mwyn dyfarnu yn eu cylch.

6.8 Yna dylai nifer y pleidleisiau a roddwyd ar gyfer pob ateb gael eu cyfrif a'u gosod mewn bwndeli o nifer ragnodedig, e.e. bwndeli o 10, 20, 25, 50 neu 100. Dylid atodi slip neu gerdyn a'r gair 'Aros' neu 'Gadael' arno, ynghyd â'r nifer yn y bwndel, ar y blaen. Efallai y byddai lliwiau gwahanol ar gyfer y slipiau yn ddefnyddiol. Yna dylai'r bwndeli gael eu hailgyfrif gan gynorthwyydd cyfrif arall er mwyn sicrhau cywirdeb y bwndel.

6.9 Cyn mynd ag unrhyw fwndeli oddi wrth y staff cyfrif, dylai goruchwylwyr fwrw golwg dros y bwndeli er mwyn sicrhau bod yr holl bleidleisiau yn y bwndel wedi'u marcio yn yr un ffordd.

6.10 Mae'n annhebygol y bydd nifer y pleidleisiau yn y bwndel olaf yn hafal i nifer ragnodedig y bwndel, ac felly dylid gwneud nodyn o nifer y pleidleisiau yn y bwndeli anghyflawn hynny a'i atodi ar flaen y bwndel.

6.11 Dylai unrhyw bapurau pleidleisio amheus gael eu rhoi o'r neilltu ar gyfer dyfarniad.

Papurau pleidleisio amheus

6.12 Dylech ddyfarnu ynglŷn â phapurau pleidleisio amheus yn rheolaidd wrth i'r cyfrif fynd rhagddo: ni ddylid gadael y broses o ddyfarnu ynglŷn â phapurau pleidleisio amheus tan ddiwedd y cyfrif. Dylech ystyried y [llyfryn ar bapurau pleidleisio amheus](#) drwy gydol y broses ddyfarnu. Mae'r llyfryn yn cynnwys enghreifftiau o bleidleisiau a ganiateir a phleidleisiau a wrthodir a'r egwyddorion allweddol i'w dilyn wrth ddyfarnu ynglŷn â phapurau pleidleisio amheus. Hefyd, nodir enghreifftiau o bapurau pleidleisio a ganiateir a phapurau pleidleisio a wrthodir ar y [mat bwrdd papurau pleidleisio amheus](#) y dylech ei arddangos yn y cyfrif er mwyn i asiantiaid ac arsylwyr gyfeirio ato.

6.13 Wrth ddyfarnu ynglŷn â phapurau pleidleisio amheus, dylech wneud y canlynol:

- byddwch yn glir ac yn gyson bob amser
- cymerwch amser i sicrhau y gwneir penderfyniad ystyriol ym mhob achos
- penderfynwch a yw bwriad y pleidleisiwr yn ymddangos yn glir ar y papur pleidleisio

6.14 Fel rhan o hyn, bydd angen i chi:

- ystyried y papur pleidleisio cyfan
- ystyried a yw'r ffordd y cafodd papur pleidleisio ei farcio yn golygu bod pleidlais dros un ateb i gwestiwn y refferendwm yn amlwg

6.15 Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu bod yn rhaid i chi wrthod papur pleidleisio²⁷:

- nad yw'n cynnwys y marc swyddogol (nid y marc adnabod unigryw)
- lle y rhoddir pleidlais i'r ddau ateb i gwestiwn y refferendwm
- os bydd unrhyw beth wedi'i ysgrifennu neu wedi'i farcio arno sy'n eich galluogi i adnabod y pleidleisiwr (ac eithrio rhif y papur pleidleisio argraffedig neu farc adnabod unigryw arall)
- nad yw wedi'i farcio neu sy'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd

6.16 Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi, oni bai bod modd adnabod y pleidleisiwr oherwydd y ffordd y marciwyd y papur pleidleisio, na chaniateir i chi wrthod papur pleidleisio y marciwyd y bleidlais arno yn y ffyrdd canlynol os yw bwriad y pleidleisiwr yn amlwg²⁸:

- rywle arall yn hytrach na'r man priodol
- mae'r bleidlais wedi'i marcio mewn ffordd arall ar wahân i groes
- mae'r bleidlais wedi'i marcio drwy fwy nac un marc

6.17 At hynny, efallai y bydd angen ystyried ymhellach unrhyw bapurau pleidleisio sy'n arddangos unrhyw rai o'r canlynol:

- unrhyw bapur pleidleisio sy'n cynnwys unrhyw beth anarferol (er enghraifft, ymddengys ei fod wedi'i newid, naill ai â theclyn ysgrifennu cwbl wahanol neu â hylif cywiro)
- unrhyw bapur pleidleisio sydd wedi'i dorri neu wedi'i ddifrodi mewn unrhyw ffordd

6.18 Dylid trin unrhyw bapurau pleidleisio yr ymddengys eu bod wedi cael eu newid fel rhai 'amheus' a dylid cyflwyno dyfarniad yn eu cylch lle y bydd yn rhaid i chi benderfynu ar eu dilysrwydd ym mhresenoldeb asiantiaid ac arsylwyr. Rhaid i'r rhai y datganwyd eu bod yn ddilys wedyn gael eu cyfrif a'u cynnwys yng nghyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd dros yr ateb perthnasol i gwestiwn y refferendwm.

6.19 Mae'ch penderfyniad ynglŷn ag unrhyw gwestiwn sy'n codi mewn perthynas â phapur pleidleisio yn derfynol²⁹. Rhaid i chi lunio datganiad yn dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd ac am ba reswm³⁰. Felly dylai fod gennych system ar waith drwy gydol y broses ddyfarnu ar gyfer didoli'r papurau pleidleisio a wrthodwyd o dan y penawdau canlynol:

- dim marc swyddogol
- pleidleisiwyd dros y ddau ateb

- ysgrifen neu farc sy'n eich galluogi i adnabod y pleidleisiwr
- heb ei farcio neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd

6.20 Dylech ystyried y [llyfryn ar bleidleisiau amheus](#) a'r [mat bwrdd](#) er mwyn sicrhau y caiff y pleidleisiau a wrthodir eu categorioedd mewn ffordd gywir a chyson er mwyn eu cofnodi ar y datganiad.

6.21 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod y gair 'gwrthodwyd' yn cael ei farcio ar bob papur pleidleisio fel y bo'n briodol, a rhaid ychwanegu'r geiriau 'gwrthwynebwyd y penderfyniad i wrthod' os bydd asiant cyfrif yn gwrthwynebu'ch penderfyniad³¹. Er y dylai fod modd i arsylwyr arsylwi ar y broses hon, yn wahanol i asiantiaid, nid oes ganddynt hawl gyfreithiol i wrthwynebu penderfyniad i wrthod papur pleidleisio.

6.22 Rhaid i chi hysbysu'ch Swyddog Cyfrif Rhanbarthol am gynnwys y datganiad³². Caiff rhagor o ganllawiau ar y prosesau a'r systemau ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth hon eu rhoi ar wahân gan y Prif Swyddog Cyfrif a'ch Swyddog Cyfrif Rhanbarthol.

6.23 Dylai copi o'r datganiad am bapurau pleidleisio a wrthodwyd gael ei osod yn y pecyn ar gyfer papurau pleidleisio a wrthodwyd.

Papurau pleidleisio a dorwyd

6.24 Efallai y byddwch yn dod ar draws achosion lle mae pleidleiswyr wedi torri rhan o'r papur pleidleisio. Wrth benderfynu a oes modd cyfrif darn o bapur pleidleisio bydd yn dibynnu ar b'un a yw'n cynnwys y marc swyddogol.

6.25 Os yw'n ei gynnwys, gellir derbyn y papur pleidleisio fel pleidlais ddilys, ar yr amod eich bod yn fodlon ar y canlynol³³:

- mae bwriad y pleidleisiwr yn amlwg
- nid yw'r pleidleisiwr wedi pleidleisio dros fwy nag un ateb i gwestiwn y refferendwm
- nid yw'r pleidleisiwr wedi ysgrifennu ar y papur pleidleisio nac wedi'i farcio mewn modd sy'n eich galluogi i adnabod y pleidleisiwr



Gweler Pennod 6 o [Rhan D: Pleidleisio absenno](#) i gael canllawiau ar sut i ddelio â phapurau pleidleisio wedi'u torri wrth agor pleidleisiau post.

Cysoni

6.26 Ar ôl i'r holl bapurau pleidleisio gael eu didoli ac ar ôl i ddyfarniadau ynglŷn ag unrhyw bleidleisiau amheus gael eu gwneud, gall y dasg allweddol o gysoni ddechrau.

6.27 Rhaid i'r holl fwndeli a bwndeli rhannol o bapurau pleidleisio sy'n dangos pleidlais ddilys gael eu cyfrif. Yna rhaid i'r cyfanswm ar gyfer pob ateb i gwestiwn y refferendwm gael ei adio i gyfanswm nifer y papurau pleidleisio a

wrthodwyd³⁴. Dylai'r cyfanswm hwn gyfateb yn union i'r ffigur sy'n rhoi cyfanswm nifer y papurau pleidleisio a gafwyd ar ddiwedd y broses ddilysu. Os bydd y ddau ffigur yn gyson, dylech fwrw ymlaen â'r broses o ymgynghori â'r asiantiaid a'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ynglŷn â chyfanswm lleol dros dro.

6.28 Dylech fod yn fodlon bod y cyfansymiau lleol yn adlewyrchu'r pleidleisiau a gafwyd ac felly os na fydd y ffigurau'n gyson â'i gilydd, dylid dilyn y weithdrefn ganlynol er mwyn ceisio nodi ac unioni'r anghysondeb:

- Edrychwch yn y man storio a sicrhewch fod yr holl flychau pleidleisio wedi cael eu hagor a'u bod yn wag.
- Edrychwch ar y lloriau a'r arwynebau rhag ofn bod papurau pleidleisio wedi cael eu gollwng yn lleoliad y cyfrif.
- Edrychwch eto ar y ffigurau dilysu a'r ymarfer cysoni rhag ofn eu bod yn cynnwys camgymeriadau cyfrifo.
- Sicrhewch eich bod wedi cyfrif am bob papur pleidleisio a wrthodwyd.
- Sicrhewch fod yr holl fwndeli a bwndeli rhannol wedi cael eu cyfrif a'u rhoi mewn pentyrrau'n briodol.
- Ystyriwch ailgyfrif y papurau pleidleisio yn y bwndeli.

6.29 Dylech hefyd wneud unrhyw wiriadau eraill sy'n angenrheidiol, yn eich tyb chi.

6.30 Os bydd y ffigurau yn anghyson o hyd, ar ôl gwneud hyn, ac na ellir nodi nac unioni'r anghysondeb, dylech gysylltu â'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol i drafod a chytuno ar ffordd o weithredu.

Cyfansymiau lleol dros dro ac ailgyfrif

6.31 Tra bydd yr ymarfer cysoni yn digwydd ar gyfer pob 'ardal', bydd angen coladu'r cyfansymiau o bob un o'r 'ardaloedd' i wneud cyfansymiau lleol cyffredinol. Rhaid rhannu'r cyfansymiau lleol dros dro â'r asiantiaid refferendwm a'r asiantiaid cyfrif³⁵.

6.32 Dylech rannu'r cyfansymiau lleol dros dro â'r asiantiaid refferendwm a'r asiantiaid cyfrif, ac egluro bod gan asiant refferendwm neu asiantiaid cyfrif dynodedig sy'n bresennol pan gaiff y cyfrif ei gwblhau yr hawl i ofyn am ailgyfrif³⁶. Dylai'r broses hon gael ei chynnal o fewn fframwaith mor agored a thryloyw â phosibl sy'n cael ei weithredu drwy'r amrywiol brosesau fel y gall pob ymgyrchydd ac asiant ymddiried yn y prosesau a'r cyfansymiau lleol dros dro a roddwyd.

6.33 Rhaid i chi roi digon o amser i asiantiaid ystyried y cyfansymiau cyn gweithredu ymhellach³⁷. Dyma'r adeg y gall unrhyw asiant refferendwm neu asiant cyfrif dynodedig wneud cais am i'r pleidleisiau gael eu hailgyfrif neu, ar ôl ailgyfrif, eu hailgyfrif eto.



Un bleidlais yw'r refferendwm, gydag un canlyniad i'r DU gyfan. Mae cyfansymiau lleol cywir ar gyfer pob ardal bleidleisio yn hanfodol er mwyn cael canlyniad cywir y gall pleidleiswyr ymddiried ynddo.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer ailgyfrifon rhanbarthol na chenedlaethol. Dim ond ar lefel yr ardal bleidleisio y gellir ailgyfrif y pleidleisiau.

Pan fyddwch yn ymgynghori â'r asiantiaid ynglŷn â'r cyfansymiau lleol dros dro, dylech nodi'n glir mai dyna eu cyfle i ofyn am ailgyfrif ac nad oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer ailgyfrifon rhanbarthol na chenedlaethol.

Dylech gofio ei bod yn bosibl y bydd ymgyrchwyr yn cael arwyddion cynnar o hynnt y bleidlais o ganolfannau cyfrif eraill, a all beri iddynt ofyn am ailgyfrif yn eich ardal bleidleisio.

6.34 Rhaid i chi ystyried unrhyw gais am ailgyfrif ond yn ôl y gyfraith cewch wrthod y cais os yw'n afresymol, yn eich barn chi³⁸. Os cewch gais am ailgyfrif, dylech gydgyssylltu â'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol a chadarnhau sut y byddwch yn gweithredu.

6.35 Cewch ystyried cynnig cyfle i'r asiantiaid archwilio'r bwndeli o bapurau pleidleisio fel ffordd o gael sicrwydd bod y cyfansymiau lleol yn gywir.

6.36 Gall y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol hefyd eich cyfarwyddo i gynnal ailgyfrif (neu ailgyfrif arall) os oes rheswm dros amau cywirdeb y broses o gyfrif pleidleisiau yn eich ardal³⁹.

6.37 Os byddwch yn ailgyfrif y pleidleisiau, dylai'r asiantiaid refferendwm a'r asiantiaid cyfrif ac unrhyw arsylwyr sy'n bresennol gael eu hysbysu cyn i'r ailgyfrif ddechrau a'u briffio ar y prosesau y bwriadwch eu dilyn. Fel yn achos y broses gyfrif wreiddiol, dylid cynnal unrhyw broses ailgyfrif yng ngolwg y rhai sy'n bresennol. Mae gennych hawl i ailystyried pa bapurau pleidleisio y dylid eu gwrthod yn ystod y broses ailgyfrif (neu unrhyw broses ailgyfrif arall).

6.38 Rhaid ymgynghori â'r asiantiaid ynglŷn â'r cyfansymiau lleol dros dro diwygiedig yn yr un modd ag yr ymgynghorwyd â hwy ynglŷn â'r cyfansymiau lleol dros dro ar ôl i'r cyfrif cyntaf ddod i ben⁴⁰.

6.39 Mae modd cynnal mwy nag un broses ailgyfrif. Unwaith eto, rhaid i chi ystyried unrhyw gais am ailgyfrif a chewch wrthod y cais os yw'n afresymol, yn eich barn chi⁴¹.

6.40 Dylech hysbysu'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol o'r hyn sy'n digwydd.

6.41 Ar ôl i chi ymgynghori ynglŷn â'r cyfansymiau lleol dros dro, sy'n cynnwys ystyried unrhyw geisiadau am ailgyfrif(on) a'u cynnal, gallwch fynd ati i hysbysu'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol o'r cyfansymiau lleol⁴².

Cyfleu'r cyfansymiau lleol

6.42 Rhaid i chi lunio datganiad sy'n cynnwys⁴³:

- cyfanswm nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd
- cyfanswm nifer y pleidleisiau a fwrwyd o blaid pob ateb i gwestiwn y refferendwm
- cyfanswm nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd

6.43 Rhaid i chi hysbysu'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol am gynnwys y datganiad⁴⁴. Caiff rhagor o ganllawiau ar y prosesau a'r systemau ar gyfer llunio'r datganiad a chyflwyno cyfansymiau lleol eu rhoi ar wahân gan y Prif Swyddog Cyfrif a'ch Swyddog Cyfrif Rhanbarthol.

Datgan y cyfansymiau lleol

6.44 Pan gewch eich awdurdodi i wneud hynny gan y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol (neu'r Prif Swyddog Cyfrif yng Ngogledd Iwerddon) rhaid i chi ddatgan y cyfansymiau lleol.

6.45 Dylid ystyried y ffactorau canlynol wrth ystyried datgan y cyfansymiau lleol:

- Penderfynwch ar yr union fan yn y lleoliad lle y dylid cyhoeddi gwybodaeth a gwneud datganiadau a phwy fydd ar y llwyfan ar yr adeg hon. Dylai'r rhai y mae angen iddynt gyrraedd y llwyfan allu gwneud hynny'n hawdd. Gallech ddefnyddio byrddau arddangos neu lenni i gynnig cefndir addas i gyhoeddi'r cyfansymiau lleol.
- Dylai unrhyw offer cyhoeddi fod yn ei le a dylid ei wirio cyn i'r prosesau ddechrau.
- Ailwirio bod y ffigurau rydych ar fin eu darllen yn gywir. Efallai y bydd angen i chi ailadrodd y datganiad fel y gall y rhai sy'n bresennol glywed y manylion yn glir, yn enwedig os bydd y rhai sy'n bresennol yn cadw sŵn.
- Dylech gymryd camau i roi copi ysgrifenedig o'r cyfansymiau lleol i'r cynrychiolwyr o'r cyfryngau sy'n bresennol ar adeg cyhoeddi gan y bydd hyn yn eu helpu i sicrhau eu bod yn darlledu'r cyfansymiau yn gywir.

-
- ¹ Rheol 46(13) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ² Rheolau 45(3) a (4) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ³ Rheol 45(2) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ⁴ Rheol 45(6) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ⁵ Rheol 24(1)(b) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ⁶ Rheolau 45(3)(b) a (5) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ⁷ Rheolau 45(6) a (7) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ⁸ A6E PPERA 2000
 - ⁹ A6F(7) PPERA 2000
 - ¹⁰ A6A ac A6B PPERA 2000
 - ¹¹ Rheolau 45(3)(b) a 5(a) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ¹² Rheol 46(9)(a) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ¹³ Rheolau 55(2) a 46(9)(a) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ¹⁴ Rheol 55(2) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ¹⁵ Rheol 46 o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ¹⁶ Rheol 46(9) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ¹⁷ Rheol 46(10) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ¹⁸ Rheol 46(9)(a) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ¹⁹ Rheol 46(1) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ²⁰ Rheol 46(8)(a) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ²¹ Rheol 46(9)(a) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ²² Rheol 46(1)(c) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ²³ Rheolau 46(1) a (9) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ²⁴ Rheol 46(11)(a) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ²⁵ Rheol 46(2) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ²⁶ Rheol 46(8) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ²⁷ Rheol 48(1) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ²⁸ Rheol 48(2) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ²⁹ Rheol 50 o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ³⁰ Rheol 48(4) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ³¹ Rheol 48(3) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ³² Rheol 48(5)(a) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ³³ Rheol 48(2) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ³⁴ Rheol 49(1)(a) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ³⁵ Rheol 47(1) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ³⁶ Rheol 47(1) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ³⁷ Rheol 47(3) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ³⁸ Rheol 47(1) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ³⁹ Rheol 49(3)(a) a (4) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ⁴⁰ Rheol 47(1) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ⁴¹ Rheol 47(1) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ⁴² Rheol 49(1) a (2) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ⁴³ Rheolau 49(1) a 44(4) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
 - ⁴⁴ Rheolau 49(2)(a) a 44(5)(a) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016